**Jane Hutt AC / AM**
**Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth**
**Minister for Finance and Government Business**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

William Graham AC
Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes

William.Graham@assembly.wales

17 Mawrth 2016

Annwyl William,

**Adolygiad Llysgenhadon Cyllid yr UE o Gyfleoedd Cyllido a Pholisi'r UE ar gyfer Cymru 2014-2020**

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi fy mod i heddiw yn cyhoeddi adroddiad terfynol Llysgenhadon Cyllid yr UE "Ewrop yn Bwysig i Gymru: Cyfleoedd Cyllido a Pholisi'r UE ar gyfer Cymru 2014-2020".

Mae'r adroddiad terfynol hwn, sydd ar gael yma http://llyw.cymru/funding/eu-funds/eu-programmes/?skip=1&lang=cy, yn adeiladu ar y cynigion a gafodd eu cynnwys yn adroddiad dros dro y Llysgenhadon, yr ysgrifennais atoch yn ei gylch ar 15 Rhagfyr. Mae'n amlwg o'r ymatebion a gafwyd i'r adroddiad interim bod partneriaid a rhanddeiliaid yn gefnogol iawn o gynigion y Llysgenhadon, ac rwy'n falch o weld bod y rhain wedi'u datblygu ymhellach yn eu hadroddiad terfynol.

Yn sgil yr argymhellion cynharach a gafodd eu cynnwys yn adroddiad interim y Llysgenhadon, rwyf hefyd yn falch o gyhoeddi ein bod eisoes wedi gweithredu i sefydlu Grŵp Polisi'r UE ar gyfer uwch-swyddogion.

Rwy'n ddiolchgar iawn i'r tri Llysgennad am yr amser a'r ymdrech y maent wedi'u rhoi i'w rolau ac am yr effaith gadarnhaol maent wedi'i chael wrth ymgysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid a chodi ymwybyddiaeth a phroffil cyfleoedd cyllid yr UE yng Nghymru. Rwyf hefyd yn ddiolchgar i'r Pwyllgor Menter a Busnes am helpu i gyfrannu at waith y Llysgenhadon, a'i hwyluso.

Bu'r gwaith hwn yn werthfawr iawn yn ei hun, ond mae'r Llysgenhadon hefyd wedi nodi nifer o argymhellion allweddol yn eu hadroddiad terfynol y maent yn credu y bydd yn ein rhoi mewn sefyllfa well i gael y fantais fwyaf o'r synergeddau rhwng blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru a'r UE ar gyfer gweddill cyfnod rhaglennu 2014-2020. Ategir y rhain gan nifer o gynigion ac arsylwadau thematig.

Mae'r Llysgenhadon wedi pwysleisio pwysigrwydd adnabod a chanolbwyntio ar flaenoriaethau strategol allweddol sy'n bwysig i Gymru a thargedu ymdrechion ac adnoddau wrth fynd i'r afael â'r rhain yn hytrach na mynd ar drywydd cyfleoedd cyllid yn unig. Maent

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Jane.Hutt@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

wedi cynnig cyflwyno strwythur rheoli a chyflawni integredig a strategol sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau sy'n cynnwys y Llywodraetha'i phartneriaid i helpu i gyflawni'r nodau hynny.

Mae'r Llysgenhadon wedi rhoi pwyslais mawr ar yr angen i flaenoriaethu ac maent wedi awgrymu ei bod yn debygol y bydd cyfleoedd arwyddocaol mewn meysydd fel Dinasoedd Effeithlon, Gwyddorau Bywyd a Gofal Iechyd, effaith poblogaeth sy’n heneiddio ac anniddigrwydd ymhlith pobl ifanc, yn enwedig os bydd modd mynd i'r afael â hyn drwy ymyriadau blynyddoedd cynnar.

Mae'n hanfodol ein bod yn parhau i adeiladu ar y gefnogaeth a gawn gan Gronfeydd Strwythurol yr UE, y Rhaglen Datblygu Gwledig a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, sydd werth dros £500m yn flynyddol, i dargedu cyfleoedd cyllido'r UE ymhellach, cael mynediad atynt a chynyddu eu proffil yng Nghymru. Rwy'n sicr y bydd y cynigion hyn yn ein helpu i wneud hynny ac y bydd yn helpu i gryfhau'r trefniadau partneriaeth sydd eu hangen i gyflawni'r nod hwnnw ac i helpu Llywodraeth Cymru i hyrwyddo cyllid Ewropeaidd.

Rwy'n croesawu'r adroddiad yn wresog. Er mai lle y Llywodraeth Cymru newydd fydd ystyried gweithredu'r argymhellion ac i bennu trefniadau sefydliadol a chyflawni'r dyfodol, rwy'n falch o gefnogi byrdwn y cynigion sydd ynddo.

Yn gywir,

**Jane Hutt AC / AM**
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Minister for Finance and Government Business